Dŵr Cymru
Welsh Water

Pentwyn Road
Nelson
Treharris
Mid Glamorgan
CF46 6LY

Tel: +44 (0)1443 452300
Fax: +44 (0)1443 452323
Web site: www.dwrcymru.com

Heol Pentwyn
Nelson
Treharris
Morgannwg Ganol
CF46 6LY

Ffôn: +44 (0)1443 452300
Ffacs: +44 (0)1443 452323
Safle gwe: www.dwrcymru.com

Annwyl Syr/Fadam

Ffurflen Hysbysu
Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999

Dioloch am eich cais am ffurflen Hysbysu er mwyn nodi eich bod am osod ffitiadau dŵr. Mae'n bleser gen i amgáu'r ffurflen. Ar ôl ei llenwi gyrrwch i'r swyddfa ardal berthnasol. Mae'r cyfeiriadau ar y ddalen amgaeëdig sy'n cynnwys map o'n hardaloedd gweithredu. Os yw'n well gennych gallwch yrru llungopi o'r ffurflen hon, er mwyn osgoi gofyn am ffurflen arall yn y dyfodol.

Rwyf hefyd wedi amgáu Trefnlen 1, Categorïau Hylif, er mwyn eich helpu i lenwi'r Ffurflen Hysbysu os digwydd nad tŷ yw'r lleoliad. Mae'r amlen hefyd yn cynnwys nodiadau ar y Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) sydd wedi cymryd lle'r is-reolau dŵr.

O dan y Rheoliadau mae'n rhaid gyrru hysbysiad o'r gwaith arfaethedig i'ch cyflenwr dŵr a derbyn caniatâd gan y cyflenwr hwnnw **cyn** gosod ffitiadau dŵr mewn pob adeilad newydd neu gyfredol, **ac eithrio** tai sy'n bodoli oni bai fod bwriad i osod y ffitiadau a restrwyd yn adran 8. Gallwch ddisgwyl penderfyniad o fewn 10 dydd gwaith o ddyddiad derbyn yr hysbysiad. Nodwch hefyd fod yn rhaid gyrru hysbysiad o newid sylweddol mewn defnydd adeilad.

Gallwch gael manylion llawn am Hysbysiadau o swyddfeydd HMSO. Rwyf wedi amgáu copi o fersiwn di-dâl a atgynhyrchwyd gan WRAS (Water Regulations Advisory Scheme) neu gallwch gael copi gennym ni wrth ffonio 0800 052 0138.

Yn gywir

Peter Perry

glas
Glas Cymru Cyfyngedig

Welsh Water is owned by Glas Cymru – a 'not-for-profit' company.
Mae Dŵr Cymru yn eiddo i Glas Cymru - cwmni 'nid-er-elw'.

We welcome correspondence
in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn
y Gymraeg neu yn Saesneg.

Dŵr Cymru Cyf, a limited company registered in
Wales no. 2366777. Registered office: Pentwyn Road,
Nelson, Treharris, Mid Glamorgan CF46 6LY.

Dŵr Cymru Cyf, cwmni cyfyngedig wedi'i gofrestru yng
Nghymru rhif 2366777. Swyddfa gofrestredig: Heol Pentwyn,
Nelson, Treharris, Morgannwg Ganol CF46 6LY.

Cyfeiriadau ar gyfer Ffurflenni Hysbysu

Dŵr Cymru
Welsh Water

Anfonwch yr holl hysbysiadau gosod mewn perthynas â 'Cais am Gysylltiad Newydd' at:
Uned Busnes Newydd Dŵr Cymru Welsh Water, Stâd Ddiwydiannol Players, Clydach, Abertawe, SA6 5BQ.

Anfonwch yr holl Hysbysiadau eraill at y Swyddog Rheoliadau Dŵr sy'n gyfrifol am ardal y gosodiad arfaethedig (nodir ar y map isod).

ARDAL 1 & 2
Dinas, Llanwnda,
Caernarfon,
Gwynedd LL54 5UD

ARDAL 3
Teras Dyffryn Bach,
Pentre'r Eglwys,
ger Pontypridd CF38 1BN

ARDAL 4
Broomy Hill,
Breinton Road,
Hereford HR4 0JS

ARDAL 5
Teras Dyffryn Bach,
Pentre'r Eglwys,
ger Pontypridd CF38 1BN

ARDAL 6
Strâd Ddiwydiannol Players,
Clydach,
Abertawe SA6 5BQ

ARDAL 7
Stâd Ddiwydiannol Heol Abergwaun,
Llwyn Helyg,
Hwlffordd SA62 4EQ



Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999
Hysbysu Gosod Pibellau a Ffitiadau

Dŵr Cymru
Welsh Water

Nodiadau Esboniadol

Nodyn: Mae'n rhaid llenwi pob rhan o'r ffurflen Hysbysu, sef Adrannau 1 - 9. Dychwelwch y ffurflen, ynghyd â'r gwahanol amgaeadau a nodir yn Adrannau 10 - 12, cyn gynted â phosibl. O dan y Rheoliadau rhaid cael caniatâd cyn gosod pibellau a ffitiadau. Gallwch ddisgwyl derbyn ymateb cadarnhaol neu negyddol o fewn 10 dydd gwaith o dderbyn yr hysbysiad.

Nid oes modd ystyried cysylltiad newydd oni bai fod ffurflen Hysbysu wedi'i derbyn a'i chymeradwyo gan y cwmni.

Adran 6
Mae'r nodyn amgaeëdig Trefnlen 1 - Categorïau Hylif wedi'i gopïo o'r Rheoliadau a bydd yn helpu pobl sydd am wneud gosodiad mewn lleoliad nad yw'n adeilad preswyl. Mae gwybodaeth bellach am y Categorïau Hylif yn y Rheoliadau (Cyfeiriad 1 - isod), Cyfarwyddyd y Rheolydd (2) a Chanllaw Rheoliadau Dŵr WRAS (3).

Adran 7
7e) Ticiwch y blwch **IE** os nad yw 7a, 7b, 7c neu 7d yn disgrifio'r lleoliad yn llawn. Fe all fod yn addas ticio mwy nag un blwch **IE** yn adran 7.

Adran 8
8a) Mae cynhwysedd bath preswyl safonol yn llai na 230 litr. Felly, mae cynhwysedd bath sy'n fwy nag un safonol yn debyg o fod yn fwy na 230 litr

8c) Dilëwyd

8d) Nid yw hwn yn cynnwys pwmp gwres canolog

8e) Uned trin dŵr sy'n anghyffredin iawn erbyn hyn

8f) Paragraff sy'n cynnwys y rhan fwyaf o'r systemau meddalu dŵr sy'n cysylltu â'r bibell gyflenwi a hefyd unedau trin pyllau nofio

8g) Fel arfer ni ddefnyddir dyfeisiadau mecanyddol i atal halogi'r cyflenwad dŵr gan Hylifau Peryglus Categori 4 mewn adeiladau preswyl ac yn anaml mewn adeiladau masnachol

8h) Paragraff sy'n cynnwys pob system dyfrio gerddi ac eithrio rhai llaw.

8m) Gall fod yn system ailgylchu ffynnon, dŵr glaw neu ddŵr llwyd; gyda'r posibilrwydd o ddamwain o halogi cyflenwad dŵr yfed.

Adran 9
Mae Plymwr (neu Gontractwr) Cymeradwyedig yn berson wedi'i gymeradwyo gan y cwmni hwn neu gan gorff a nodwyd yn ysgrifenedig gan y rheolydd. Mae Dŵr Cymru Welsh Water yn cefnogi Cynllun Plymwyr Cymeradwyedig y Diwydiant Dŵr (WIAPS - Water Industry Approved Plumbers Scheme) sydd ag aelodau drwy'r Deyrnas Unedig. Gan ei fod wedi profi ei allu, gall y fath blymwr osod ffitiadau mewn rhai lleoliadau heb roi rhybudd i'r cyflenwr dŵr cyn gwneud y gwaith.

Bydd y Plymwr Cymeradwyedig bob amser yn rhoi Tystysigrif i'w gwsmer yn nodi fod y gwaith wedi'i wneud yn unol â'r rheoliadau. Gallwch gael manylion eich Plymwr Cymeradwyedig agosaf wrth alw ein canolfan alwadau a dyfynnu eich côd post neu wrth ymweld â gwefan WRAS www.wras.co.uk ac edrych yn yr adran Cynllun Plymwyr Cymeradwyedig. Gan fod y cynllun yn dal yn ei ddyddiau cynnar nid oes llawer o blymwyr wedi cael cyfle i brofi eu gwybodaeth o'r rheoliadau felly nid oes llawer o aelodau ar hyn o bryd, ond rydym yn hyderus bydd nifer sylweddol o aelodau yn y dyfodol agos.

Adran 12
Nid oes angen diagram yn y lle cyntaf ar gyfer Hysbysiadau o ddarpar osodiadau mewn lleoliadau a ddefnyddir at ddibenion preswyl yn unig. Fe ofynnir am ddiagram o fewn 10 dydd gwaith os yw'r Swyddfa Rheoliadau yn ystyried bod angen un cyn y gellir cymeradwyo'r Hysbysiad. Ym mhob achos arall bydd angen diagram, ond gall fod yn un sgematig.

Cyfeiriadau
1) Galwch ***0800 052 0138*** am gopi di-dâl o'r Rheoliadau Ffitiadau Dŵr. Byddwn yn amgáu copi gyda phob ffurflen gais am gysylltiad newydd.

2) Gallwch ddarllen canllaw DEFRA ar Drefnlenni 1 a 2 o'r Rheoliadau ar y wefan ***www.defra.gov.uk/environment/water/index.htm*** yn yr adran Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999, er bod y cynnwys yn rhan o'r Cynllun Rheoliadau Dŵr Ymgynghorol - Canllaw Rheoliadau Dŵr (Water Regulations Advisory Scheme [WRAS] - Water regulations Guide).

3) Gallwch gael copi o'r Canllaw Rheoliadau Dŵr WRAS (220 tudalen), sy'n cynnwys y Rheoliadau Ffitiadau Dŵr a Chyfarwyddyd y Rheolydd, ynghyd ag Argymhellion y Diwydiant Cyflenwi Dŵr a dros 100 o luniau lliw, gan ***WRAS (Cynllun Cyngor Rheoliadau Dŵr), Fern Close, Stâd Ddiwydiannol Pen-y- Fan, Oakdale, Casnewydd NP11 3EH***.

Ffôn: 01495 248454 pris £19.80 yn cynnwys cludiant (llai am sawl copi).

Trefnlen 1
Categorîau Hylif

Dŵr Cymru
Welsh Water

Hylif categori 1
Dŵr iachus gan gyflenwr dŵr sy'n cydymffurfio â gofynion rheoliadau adran 67 Deddf Diwydiant Dŵr 1991 (a).

Hylif categori 2
Dŵr o dan gategori 1 y mae ei ansawdd esthetaidd wedi'i effeithio gan

a) Newid mewn tymheredd, neu
b) Presenoldeb sylweddau neu organebau sydd wedi newid ei flas, arogl neu olwg, yn cynnwys dŵr o fewn system dosbarthu dŵr poeth.

Hylif categori 3
Hylif sy'n cynrychioli ***perygl iechyd isel*** oherwydd presenoldeb sylweddau is-wenwynig, ac unrhyw hylif sy'n cynnwys

a) Ethylen glycol, toddiant sylffad copr neu ychwanegion cemegol tebyg, neu
b) Sodiwm hypoclorit (chloros a diheintyddion cyffredin).

Hylif categori 4
Hylif sy'n cynrychioli ***perygl iechyd sylweddol*** oherwydd presenoldeb sylweddau gwenwynig, ac unrhyw hylif sy'n cynnwys

a) Sylweddau cemegol, carsinogenig neu blaladdwyr (pryfleiddiaid + chwynladdwyr)[pesticides - insecticides and herbicides] neu
b) Organebau amgylcheddol allai effeithio iechyd pobl.

Hylif categori 5
Hylif sy'n cynrychioli ***perygl iechyd difrifol*** oherwydd presenoldeb organebau pathogenig, sylweddau ymbelydrol neu wenwynig iawn ac unrhyw hylif sy'n cynnwys

a) Deunydd carthion neu wastraff dynol arall;
b) Gwastraff cigydd neu anifail arall; neu
c) Pathogenau o unrhyw ffynhonnell arall.

Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999
Nodiadau

Dŵr Cymru
Welsh Water

Diddymwyd is-reolau Dŵr Cymru Welsh Water ar 1 Gorffennaf 1999, pan ddaeth Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999 i rym.

Gallwch gael copi di-dâl o'r Rheoliadau a atgynhyrchwyd gan WRAS (Water Regulations Advisory Scheme) gan Dŵr Cymru Welsh Water wrth alw 0800 052 0138, os nad oes un wedi'i gynnwys gyda'r nodiadau hyn.

Mae DEFRA (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig) wedi cyhoeddi Canllaw i Drefnlenni 1 a 2 o'r Rheoliadau. Mae copi o'r ddogfen ar y wefan ***www.defra.gov.uk/environment/water/index.htm*** Mae hefyd yn rhan o ddogfen Canllaw Rheoliadau Dŵr WRAS ynghyd â nifer o argymhellion gan y Diwydiant Cyflenwi Dŵr, sylwadau a lluniau. Canllaw hanfodol ar gyfer gosodwyr gwaith plymwr, gan WRAS ar ***01495 248454,*** pris £19.80 yn cynnwys cludiant (llai am sawl copi).

Dylai gosodwyr nodi fod tua 80% o'r cyn Is-reolau yn dal yn rhan o'r Rheoliadau. Fodd bynnag, daeth nifer sylweddol o newidiadau pwysig i rym ym mis Gorffennaf 1999 ac mae'n bwysig eu bod yn astudio'r rheoliadau er mwyn eu dilyn yn gywir.

Mae Rheol 5 yn cyflwyno newid gweinyddol pwysig, sy'n mynnu fod pobl yn Hysbysu a derbyn Caniatâd gan y cwmni dŵr (neu farnu fod caniatâd wedi'i roi) cyn gosod unrhyw ffitiadau mewn perthynas â

1) Codi adeilad o unrhyw ddisgrifiad, neu
2) Ymestyn neu altro system ddŵr ar unrhyw leoliad ac eithrio tŷ, neu
3) Newid sylweddol i ddefnydd unrhyw leoliad, neu
4) Gosod ffitiadau a restrwyd yn adran 8 o'r Ffurflen Hysbysu.

Cyn gwneud unrhyw waith o dan y categorïau uchod dylai gosodwr ***ffonio 0800 052 0138*** i ofyn am Ffurflen Hysbysu, ei llenwi a'i chyflwyno am ganiatâd o leiaf 10 dydd gwaith cyn y dyddiad y bwriedir dechrau gwaith.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water yn cynnal rhaglen archwilio fanwl o adeiladau masnachol a ffermydd (gan roi blaenoriaeth i'r rheiny sydd â'r potensial i halogi'r cyflenwad dŵr cyhoeddus). Bydd y cwmni'n cymryd y camau priodol o dan y Rheoliadau os yn datgelu unrhyw waith a wnaed heb ei Hysbysu a'i Gymeradwyo ymlaen llaw.

Mae'r Rheoliadau yn caniatáu, ac mae DEFRA yn cefnogi, creu cynlluniau Plymwyr Cymeradwyedig. Bydd Plymwyr Cymeradwyedig yn gallu ardystio eu gwaith eu hunain ac ni fyddant yn gorfod hysbysu estyniad neu newid i systemau dŵr ar unrhyw leoliad, na hysbysu gosod bidets (chwistrellwr ar i fyny neu bibell hyblyg). Bydd angen i'r plymwr cymeradwyedig roi tystysgrif i'r cwsmer a'r cwmni dŵr ar ôl cwblhau'r gwaith gan nodi fod y gosodiad dŵr yn unol â'r rheoliadau. Cyn bo hir rhagwelir bydd cwsmeriaid yn mynnu cael plymwr cymeradwyedig i wneud unrhyw waith gosod ac yn disgwyl tystysgrif yn cadarnhau safon y gwaith hwnnw. Mae'r cwmni yma'n cefnogi ac yn hyrwyddo Cynllun Plymwyr Cymeradwyedig y Diwydiant Dŵr (WIAPS - Water Industry Approved Plumber Scheme).

Os bydd unrhyw gwestiynau gennych am y rheoliadau, galwch eich Swyddfa Ardal leol i siarad ag un o'n Swyddogion Rheoliadau Dŵr (y cyn Archwilwyr Is-reolau).

Keith Pratley
Rheolwr Rheoliadau Dŵr

Dŵr Cymru Welsh Water
Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999

Hysbysu Gosodiad Arfaethedig

Dŵr Cymru
Welsh Water

1) Cyfeiriad y gwaith
2) Enw, cyfeiriad a rhif ffôn y person sy'n cyflwyno'r hysbysiad
Ffôn:
3) Enw, cyfeiriad a rhif ffôn ar gyfer ymateb (os yn wahanol i (2))
Ffôn:
4) Defnydd o'r lleoliad (dilëwch fel bo'n addas)
Tŷ / Masnachol / Diwydiannol / Amaeth / Arall (manylwch)
5) Disgrifiad o'r defnydd o'r lleoliad (dim angen yn achos tŷ)
6) Categori hylif uchaf i'w gyflenwi (dim angen yn achos tŷ)

7) Disgrifiad o'r gwaith arfaethedig **Gosod ffitiadau dŵr mewn perthynas â:**	**Tic yn y blwch addas** **IE**	**NA**
a) Codi adeilad o unrhyw fath, ond nid pwll neu bwll nofio	☐	☐
b) Ymestyn neu altro system ddwr ar leoliad (ac eithrio tŷ)	☐	☐
c) Newid sylweddol i ddefnydd unrhyw leoliad	☐	☐
d) Safbibell dros dro	☐	☐
e) Gosodiad arall (manylwch) _____	☐	☐
8) Bydd y gwaith yn cynnwys gosod:		
a) Bath o gynhwysedd, ar sail mesur o linell ganol y bibell orlifo, mwy na 230 litr (sy'n fwy na bath arferol)	☐	☐
b) Bidet gyda chwistrellwr ar i fyny neu bibell hyblyg	☐	☐
d) Pwmp neu gyfnerthydd sy'n tynnu mwy na 12 litr y funud, wedi'i gysylltu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â phibell gyflenwi	☐	☐
e) Uned sy'n ymgorffori gwrth-osmosis	☐	☐
f) Uned trin dŵr sy'n cynhyrchu dŵr gwastraff neu sydd angen dŵr i ailosod neu lanhau ei hun	☐	☐
g) Falf RPZ neu ddyfais fecanyddol arall i'w ddiogelu rhag hylif categori 4 neu 5	☐	☐
h) Systemau dyfrio gerddi ac eithrio rhai llaw	☐	☐
i) Unrhyw systemau dŵr tu allan i adeilad ac un ai llai na 750mm neu fwy na 1350mm o dan lefel y tir	☐	☐
j) Pwll nofio neu bwll o gynhwysedd dros 10,000 litr, a ail-lenwir yn otomatig	☐	☐
k) unrhyw bibellau dwr at ddibenion brwydro tanau	☐	☐
l) System casglu dŵr glaw neu ddŵr llwyd	☐	☐
m) Defnyddio cyflenwad dŵr amgen unrhyw le ar yr eiddo	☐	☐

Dŵr Cymru
Welsh Water

9) Enw, cyfeiriad & Cynllun y Plymwr Cymeradwyedig (os yn addas)
Cynllun:
Amgaewch gyda'r hysbysiad hwn:
10) Map yn nodi'r lleoliad 11) Cynllun rhan berthnasol y lleoliad 12) Diagram yn dangos y pibellau a'r ffitiadau y bwriedir gosod
Llofnod _____ Enw _____ Dyddiad _____

Nodyn: Rhaid llenwi adrannau 1 i 9 a darparu'r manylion o dan adrannau 10 i 12. Os na wnewch hynny, byddwch yn annhebyg o dderbyn caniatâd i wneud y gwaith.